Gwasanaeth
Democrataidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# PANEL CYNLLUNIO DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cofnodion o gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar **26 Mehefin 2015**
Ystafell Gynhadledd 1, Llangefni

**Presennol:**

**Cyngor Gwynedd**

Cyng. Gwen Griffith
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Dyfrig Jones
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. Lewis Davies
Cyng. Richard Dew
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Gareth Jones | Uwch Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (Dros dro)(CG) |
| Nia Davies | Rheolwr - UPCC |
| Eirian Harris | Cymhorthydd Cefnogol Cynllunio - UPCC |
| Jim Woodcock | Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. John Arwel Roberts
Cyng. Nicola Roberts

## 1) YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd

## 2) DATGANIAD BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3) MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

## 4) CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – ADBORTH, CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Cyflwynwyd adroddiad gan Nia Davies yn rhoi adborth, camau nesaf ac yr amserlen. Rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â'r ymgynghoriad cyhoeddus, nifer o sylwadau a dderbyniwyd a'r mathau o faterion a godwyd.

Esboniwyd y broses o gofrestru'r holl sylwadau ac yn dilyn hyn bydd gohebiaeth yn cael ei gyrru i bob unigolyn, grŵp a sefydliad a gyflwynodd sylwadau. Pan gwblheir hyn bydd adroddiad a fydd yn cynnwys crynhoad o bob sylw unigol yn cael ei greu, a fydd ar gael i'r cyhoedd i'w archwilio.

Hefyd, mi fydd 5ed rhifyn o'r newyddlen yn cael ei chyhoeddi yn rhoi gwybodaeth ar yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau a throsolwg o'r camau nesaf sydd rhaid eu dilyn a'r amserlen ar eu cyfer.

Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, cyn i'r Cynllun Adnau gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r Cynghorau ystyried newidiadau fuasai angen mewn ymateb i unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

Cyfeiriwyd at y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth cynllunio ynglŷn â'r broses o ystyried sylwadau am gynlluniau adnau. Nodwyd y gallir gwneud mân newidiadau golygyddol neu fân newidiadau a fyddai'n golygu gwella eglurder neu gysondeb mewnol y Cynllun Adnau. Cyfeiriwyd at yr angen i fod yn sicr bod angen gwneud newidiadau mwy sylweddol (newidiadau a ffocws) ac mai dim ond ychydig o'r rheini ddylid fod angen. Mae'r adroddiad yn adnabod cyfres o faterion sydd angen rhoi ystyriaeth iddynt wrth asesu'r sylwadau.

Nodwyd y bwriad i greu adroddiadau ar y materion a rhestrir yn 5.2 - i) - vii) a'u cyflwyno i'r Panel rhwng mis Gorffennaf a Rhagfyr 2015, er mwyn hwyluso trafodaeth cyn i benderfyniadau cael eu gwneud ar sut i ymdrin â hwy yn y Cynllun.

Amlinellwyd fel y dangoswyd yn yr adroddiad y camau nesaf a'r amserlen i gwblhau'r Cynllun.

**Pwyntiau a Godwyd:**

- Cafodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ei longyfarch ar y gwaith ar gyfer y Cynllun.
- Holwyd pa ganran o'r sylwadau oedd yn cwestiynu'r ffigwr tai.

- Gofynnwyd a fydd modd rhoi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Gorffennaf oherwydd yr oblygiadau i fentrau gwledig o ran argaeledd ffynonellau ariannol.
- Nodwyd pryderon ynglŷn â busnesau bychan yng nghefn gwlad yn cael eu symud i stadau diwydiannol – mynegwyd fod angen busnesau bychan yng nghefn gwlad.
- Cytunwyd fod angen rhoi sylw gofalus i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a gofynnwyd am sesiynau hyfforddiant. Byddai hyn yn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r mesurau a ellir eu cymryd i ymateb i'r sylwadau.
- Holwyd os oedd 'Bil Cynllunio (Cymru)' yn effeithio paratoad y Cynllun.
- Cyfeiriwyd at sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn ag effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg. Nodwyd nad oedd TAN20 bellach yn caniatáu i awdurdodau cynllunio ofyn am ddatganiad ieithyddol ym mhob achos. Felly rhaid cadarnhau fod y Cynllun yn cefnogi'r iaith Gymraeg.
- Gofynnwyd a fyddai adroddiad am ffermydd solar yn cael ei chyflwyno i'r Panel - mae nifer o geisiadau wedi eu cyflwyno yn Ynys Môn.

**Ymatebion:**

- Esboniwyd nad oedd y canran o'r sylwadau am ffigwr tai'r Cynllun yn uchel. Cytunwyd i baratoi tabl i ddangos y nifer o sylwadau a dderbyniwyd fesul rhan o'r Cynllun.
- Mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn â pholisïau amaethyddol esboniwyd fod sawl polisi mewn lle i ddelio gyda'r mater. Nodwyd byddai ystyriaeth yn cael ei roi i sylwadau 'NFU' ac y bydd modd edrych ar wybodaeth berthnasol newydd.
- Ynglŷn â busnesau bychan, esboniwyd fod polisïau cyfredol yn bodoli sydd yn cefnogi busnesau bychan yng nghefn gwlad.
- Cytunwyd i drefnu sesiwn codi ymwybyddiaeth cyn cynnal trafodaethau am y pynciau o fewn y Cynllun.
- Cafwyd cadarnhad nad ydi'r 'Bil Cynllunio' yn effeithio paratoad y Cynllun.
- Nodwyd y sylw ynglŷn â sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi'r iaith Gymraeg.
- Cytunwyd i edrych os derbyniwyd sylwadau am y polisi ynglŷn â ffermydd solar ac i adrodd am hynny ac unrhyw wybodaeth newydd fydd i law ar y mater yma.

**5) DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cyfarfod nesaf i'w gynnal 30 Gorffennaf 2015 yn Glyder Fawr, Caernarfon.